Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Caru·Love Ceredigion

| Eitem | Dyddiad |
|---|---|
| 36.4 | 4 Medi 2023 |

| Teitl | Er |
|---|---|
| Y Cynllun Llesiant Lleol – Diweddariad am y Cynllun Cyflawni | *Trafodaeth*/***Penderfyniad***/*Gwybodaeth* |

| Crynodeb o'r Materion |
|---|

Ar ôl datblygu Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028, rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion yn awr ar strwythur cyflawni a llywodraethu cychwynnol y Cynllun dros y 5 mlynedd nesaf.

Bydd yr aelodau yn ymwybodol i fersiwn ddrafft o'r fframwaith Cyflawni a Llywodraethu gael ei rhannu a'i thrafod yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Nod y fframwaith oedd sicrhau bod mecanweithiau cyflawni priodol ar waith ar gyfer y tasgau a nodwyd o dan bob un o'r pedwar amcan llesiant ac amcanion yr is-grŵp tlodi.

Mewn rhai achosion, roedd y llwybr cyflawni yn weddol glir gan ei fod yn dilyn cylch gorchwyl presennol grŵp lleol neu ranbarthol penodol. Mae strwythur cyflawni presennol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyfan yn cynnwys tri grŵp prosiect sy'n seiliedig ar lefydd, is-grŵp tlodi trawsbynciol, y bartneriaeth dyfodol dwyieithog a'r bartneriaeth diogelwch cymunedol.

Mewn meysydd eraill, awgrymwyd prosiectau a chynlluniau lleol a rhanbarthol lle mae gan y gweithgareddau gysylltiad clir â thasgau penodol neu lle y byddai'r gweithgareddau yn cefnogi rhyw amcan yn fwy eang.

**Monitro**

- Lle bo prosiectau **y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**, mae'r prosesau adrodd sydd eisoes yn cael eu defnyddio wedi'u nodi cyn belled ag y bo modd gwneud hynny, fel y gall y bwrdd fod yn gyfrifol am fonitro'r cynnydd a wneir o ran yr amcanion ac yn y pen draw, gwthio'r gwaith o gyflawni'r cynllun llesiant yn ei flaen.

- Lle bo gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fwy o reolaeth uniongyrchol (e.e. yng nghyswllt y grwpiau peilot sy'n seiliedig ar lefydd), cytunir ar brotocolau adrodd y prosiectau hyn â Chadeiryddion y grwpiau.

- Lle bo blychau yn y prosesau cyflawni yn cael eu nodi drwy'r fframwaith, bydd y bwrdd yn defnyddio ei ddylanwad amlasiantaethol wrth fynd ati i nodi atebion neu ymyriadau ar gyfer mynd i'r afael â'r meysydd hyn gan gael gwared ar unrhyw rwystrau posibl a allai fodoli.

Yn y cyfarfod diwethaf ar 13 Mehefin 2023, gofynnwyd i'r aelodau ystyried y cynllun drafft gan gyfrannu awgrymiadau o ran blychau neu wybodaeth am fecanweithiau cyflawni ychwanegol neu rai efallai mwy priodol a fodolai o fewn y sefydliadau sy'n bartneriaid. Ar ôl hyn, cynhaliwyd sesiwn briffio gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd newydd lle cafwyd trafodaeth bellach ar y Cynllun Llesiant newydd, ac yn benodol y dyheadau o ran ei gyflawni. Cytunwyd bod angen blaenoriaethu ymhellach ar yr union dasgau y dylai gweithgareddau penodol y Bwrdd ganolbwyntio arnynt a'r modd y'u trefnir yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor i sicrhau bod y Bwrdd yn cael effaith go iawn a phendant. Trwy wneud hyn, teimlwyd y byddai'r Bwrdd yn medru gwneud newidiadau pellgyrhaeddol mewn rhai meysydd allweddol.

Ar ôl y trafodaethau gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, cytunwyd y byddai cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnal pedwar gweithdy wyneb yn wyneb / hybrid rhwng cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi a chyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr. Bydd pob gweithdy yn **canolbwyntio'n benodol ar un amcan** a'r tasgau sy'n gysylltiedig â hynny. Y nod yw **blaenoriaethu'r gweithgareddau** a nodi'r dull mwyaf addas o gyflawni'r gwaith hwn.

Wrth ystyried hyn, rydym wedi nodi pedwar aelod sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth eang a thrylwyr o'r materion sy'n ymwneud â'r amcanion unigol. Gan ddefnyddio eu harbenigedd i hwyluso ac arwain y gweithdai hyn, y gobaith yw y byddant yn ychwanegu gwerth aruthrol at y gwaith hwn ac y byddant yn llywio trafodaethau cadarn mewn modd egnïol gan sicrhau bod pawb yn cydweithio wrth gyflawni rhai nodau pendant ac amlwg.

Rydym wedi cysylltu â'r unigolion canlynol i ofyn a fyddent ar gael ac yn barod i hwyluso'r gweithdai:

- **Dr Phil Kloer (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)** – (Atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol)
- **Carwyn Jones-Evans (Cyngor Sir Ceredigion)** – (Economi gynaliadwy)
- **Gillian Perry (Cyfoeth Naturiol Cymru)** – (Cyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol)
- **Rhodri Llwyd Morgan (Prifysgol Aberystwyth)–** (Hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg )

Cafwyd trafodaethau hefyd gyda phob un o gadeiryddion y grwpiau sy'n seiliedig ar lefydd ac maent wedi croesawu'r cynnig. Yn dilyn y broses hon, byddwn ni mewn sefyllfa i fireinio a chwblhau'r cynllun cyflawni a'i gyflwyno wedyn yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Rhagfyr.

**Lansiad**
Teimlwyd y dylid oedi ychydig cyn lansio'r Cynllun Llesiant Lleol yn ffurfiol gan aros hyd nes y bydd y cynllun cyflawni wedi'i gwblhau'n derfynol. Bydd hyn yn sicrhau bod modd gwneud y trefniadau priodol.

| |
|---|
| Goblygiadau Ariannol |
| Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd |
| Argymhellion |
| Cymeradwyo’r cynnig ar gyfer cynnal pedwar gweithdy sy’n seiliedig ar yr amcanion yn y Cynllun Llesiant Lleol er mwyn blaenoriaethu’r hyn yr ydym am ei gyflawni a chyfrannu at y Cynllun Cyflawni. |
| Atodiadau |
| Y Cynllun Cyflawni Drafft |
| Swyddog Adrodd |
| Timothy Bray, Rheolwr Partneriaethau – Cyngor Sir Ceredigion |